Adroddiad ar

Ysgol Gymunedol Cae'r Felin Community school

Pencader
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA39 9AA

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Cae'r Felin Community school

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gymunedol Cae'r Felin Community school |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 104 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 82 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 12 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 12.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 8.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 37.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2026 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/06/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/05/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a gofalgar lle mae perthynas barchus yn bodoli rhwng disgyblion, athrawon a staff cynorthwyol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol "hapus a hyfryd". Mewn amser byr iawn, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu cyfeiriad clir ac ethos cadarnhaol sy'n rhoi pwyslais ar les a dysgu. Mae ei ddisgwyliadau uchel yn amlwg, ac mae gwerthoedd yr ysgol - annibyniaeth, creadigrwydd, dyfalbarhad a pharch - yn cael eu deall yn dda gan bob un o fewn ei chymuned.

Mae'r ysgol wedi'i ffedereiddio gydag Ysgol Brynsaron. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu corff llywodraethol a phennaeth. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos ar rai agweddau fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae'r cwricwlwm yn berthnasol ac yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'u cynefin. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n wynebu heriau eraill, yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd, rhifedd a medrau digidol.

Mae datblygu'r Gymraeg yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r iaith yn hyderus ac maent yn falch o'u Cymreictod. Mae athrawon yn holi disgyblion yn bwrpasol ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol nac i wella'u gwaith eu hunain.

Mae ymddygiad disgyblion fel arfer yn gadarnhaol, er bod ychydig iawn sydd ag anghenion penodol yn arddangos ymddygiad heriol, ar adegau. Mae athrawon a staff cynorthwyol yn ymateb i hyn yn briodol o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae ansefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth dros gyfnod wedi effeithio'n andwyol ar ymddiriedaeth a chefnogaeth ychydig o rieni. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth newydd wedi adnabod yr angen i ddatblygu'r agwedd hon.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Datblygu ymhellach fedrau dysgu annibynnol disgyblion

A2 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn effeithiol

A3 Cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol a rhieni

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae ymdeimlad cryf o barch yn bodoli yn yr ysgol hon. Ceir rhyngweithio naturiol a hamddenol ymysg disgyblion, a rhwng disgyblion a staff. Mae hyn wedi creu amgylchedd dysgu diogel lle mae disgyblion yn troi’n hyderus at eraill ar adeg o bryder. Does ryfedd i rai disgyblion ddisgrifio’r ysgol fel un hapus a hyfryd sy’n eu hannog i helpu a pharchu ei gilydd.

Mewn amser byr iawn ers ei benodiad, mae’r pennaeth, gyda chydweithrediad y llywodraethwyr a’r staff, wedi datblygu diwylliant cadarnhaol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol cadarn, sy’n canolbwyntio’n uniongyrchol ar wella dysgu a lles disgyblion. Mae’n gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer y staff, y disgyblion ac ar ei gyfer ef ei hun. Mae gwerthoedd yr ysgol yn glir ac yn seiliedig ar ddatblygu annibyniaeth, creadigrwydd, dyfalbarhad a pharch, ac ymwybyddiaeth gadarn disgyblion o’u cynefin. Anelir at eu hannog i ddysgu i fyw’n ddedwydd â’i gilydd, trwy ddatblygu eu medrau a'u gwerthoedd i’w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a’u galluogi i wynebu heriau'r dyfodol yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i sicrhau bod disgyblion yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd ac maent yn deall pwysigrwydd hyn. Deallant ystyr ‘colli ysgol colli cyfle’. Anogir prydlondeb da drwy gyfathrebu’n uniongyrchol a chydweithio’n agos â rhieni.

Mae'r llywodraethwyr yn rhagweithiol, ac wedi brwydro i sicrhau bod yr ysgol yn ffedereiddio gydag Ysgol Brynsaron. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu corff llywodraethol a phennaeth. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos ar rai agweddau fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn eu cyflawni'n llwyddiannus fel cyfeillion beirniadol. Maent yn monitro gwariant yn gydwybodol, tra'n ystyried lles disgyblion a staff yn ogystal â'u datblygiad addysgol wrth wneud penderfyniadau. Maent yn ystyried baich gwaith a lles y pennaeth a'r staff yn gyson ac yn eu cefnogi i fynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu gwaith.

Mae'r pennaeth a'r staff yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn gydwybodol ac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella. Wedi asesu'r sefyllfa gyfredol, mae'r pennaeth, yn fuan iawn wedi ei benodiad, wedi cyflwyno gweithdrefnau effeithiol i wella'r ddarpariaeth a sicrhau lles a chynnydd disgyblion. Mae'n cymryd camau priodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel gwella presenoldeb a chodi safonau darllen. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn llwyddiannus, gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol iddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, maent wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar wella medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion, a chyflwyno cynlluniau i wella'u lles.

Mae'r cwricwlwm yn berthnasol ac yn seiliedig ar gyd-destun lleol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes, treftadaeth a safbwyntiau lleol yn dda ac i siarad am eu cynefin â balchder. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws ystod o weithgareddau dysgu difyr mewn modd systematig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY a'r rhai o aelwydydd incem isel, yn gwneud cynnydd da. Maent yn cymhwyso'u medrau yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau gan gyflwyno'u gwaith â balchder a gofal. Er bod y gweithgareddau dysgu yn ddiddorol a chyffrous yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, yn enwedig yn y dosbarthiadau ieuengaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos brwdfrydedd, dyfalbarhad ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu, gan gydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion wrth gyflawni tasgau ymarferol. Un o brif nodweddion yr ysgol yw'r ffordd y datblygir medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn falch o'u Cymreictod ac yn mynegi eu barn ar destunau amrywiol yn gynyddol hyderus yn y Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn holi disgyblion yn bwrpasol yn ystod sesiynau dysgu ac yn ymateb yn llwyddiannus i’w cyfraniadau. Er hyn, nid ydynt yn darparu digon o ganllawiau na chyfleoedd cyson, bwriadus ac effeithiol i alluogi disgyblion i wella’u gwaith yn annibynnol.

Mae athrawon yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Gwnânt hyn drwy gyfrwng gwasanaethau ysgol, lle  cânt gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar wahanol sefyllfaoedd ynghyd ag amrywiol weithgareddau eraill lle maent yn ystyried barn a chefndir pobl sy’n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd cadarnhaol, amrywiol hunaniaethau a themâu pwysig fel tegwch a maddeuant.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i gefnogi disgyblion ag ADY. Trwy gydweithio â’r staff, mae’r cydlynydd yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn dda, yn trefnu cymorth addas iddynt, ac yn monitro’u cynnydd yn barhaus. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allanol i gyfoethogi’r ddarpariaeth hon, lle bo angen. Hyrwyddir ymddygiad cadarnhaol disgyblion yn barhaus. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda. Er bod staff yn cydnabod bod ychydig iawn ag anghenion ymddygiad heriol, maent yn ymateb i’w hanghenion yn lled lwyddiannus o fewn yr adnoddau prin sydd ganddynt.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau, fel cynllunio gweithgareddau i gefnogi elusennau, a datblygu gardd gymunedol. Er hyn, cyfyng yw’r arfer hon ac nid yw medrau arwain disgyblion wedi eu datblygu’n llawn.

Mae’r ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer eu cam dysgu nesaf. Mae hyn yn cychwyn yn gynnar, ac yn cael ei hwyluso gan sefydlu partneriaethau effeithiol gyda’r cylch meithrin lleol sydd wedi ei leoli ar y safle. Yn ogystal, mae trefniadau pontio â’r ysgolion uwchradd lleol yn llwyddiannus ac yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ymweld yn dymhorol, sy’n ceisio sicrhau bod y broses drosglwyddo yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol â nifer o sefydliadau o fewn y gymuned leol. Er enghraifft, mae’n cydweithio’n agos â chanolfan deuluol y pentref, a chwmni masnachol sy’n noddi prosiectau cymunedol ac yn ariannu adnoddau amrywiol i gyfoethogi tir yr ysgol.

Mae ansefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth dros gyfnod wedi effeithio’n andwyol ar ymddiriedaeth a chefnogaeth ychydig o rieni. Yn ddiweddar, mae’r pennaeth newydd wedi adnabod yr angen i ddatblygu’r agwedd hon.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er hyn, mae'r ysgol yn wynebu diffyg ariannol, ac maent yn cydweithio â swyddogion yr awdurdod lleol i geisio'i leihau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  14/07/2026